# AMCANGYFRIFON POBLOGAETH CANOL BLWYDDYN, 2023

## Cyflwyniad

Ar 15 Gorffennaf 2024, cyhoeddwyd amcangyfrifon poblogaeth 2023 ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Mae'r amcangyfrifon yn adlewyrchu canolbwynt y flwyddyn benodol (30 Mehefin) ac fe'u cyhoeddir yn flynyddol gan y SYG fel mesur mwy cyfoes o boblogaeth a newid rhwng Cyfrifiadau dengmlwyddol. Dyma'r drydedd set o amcangyfrifon blynyddol canol blwyddyn i'w cyhoeddi yn seiliedig ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021, a ddechreuodd ddod i'r amlwg yn haf 2022.

Cyfrifir amcangyfrifon canol blwyddyn gan heneiddio ar amcangyfrifon y boblogaeth o'r Cyfrifiad, gan gymhwyso data ar gofrestriadau genedigaethau a marwolaethau, ac amcangyfrif llifoedd mudo mewnol (symudiadau i/o fannau eraill o fewn y DU) a mudo rhyngwladol (i/o'r tu allan i'r DU). Mae'r amcangyfrifon hyn yn ymwneud â'r boblogaeth breswyl arferol. Caiff preswylwyr arferol sydd i ffwrdd o'u cartref dros dro eu cynnwys, ond caiff ymwelwyr eu heithrio. Caiff myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys mudwyr rhyngwladol tymor hir (pobl sy'n newid eu gwlad breswyl arferol am o leiaf flwyddyn) ond nid yw'n cynnwys pobl sy'n cyrraedd neu'n gadael y DU am lai na blwyddyn.

Mae'r nodyn hwn yn rhoi trosolwg byr o'r ffigurau cyhoeddedig sy'n canolbwyntio ar y prif ganlyniadau ar gyfer Abertawe a Chymru; poblogaeth yn ôl oedran a rhyw; a thueddiadau tymor byr dros y cyfnod 12 mis i fis Mehefin 2023, gan gynnwys yr wybodaeth a oedd ar gael am yr elfennau newid poblogaeth. Fel rhan o'r cyhoeddiad hwn, adolygwyd amcangyfrifon poblogaeth ac elfennau newid ar gyfer 2022 gan y SYG i gyfrif am amcangyfrifon diweddaredig mudo rhyngwladol. Yn Abertawe, mae cyfanswm yr amcangyfrif poblogaeth ar gyfer 2022 wedi cynyddu tua 800 o ganlyniad i'r adolygiad hwn. Mae'r cymariaethau â 2022 yn y nodyn hwn yn adlewyrchu'r ffigurau diwygiedig.

## Ystadegau cenedlaethol

Symudwyd cyfrifiad yr Alban i 2022 oherwydd effaith pandemig (COVID-19) coronafeirws. Cyhoeddwyd amcangyfrifon poblogaeth y DU ar gyfer canol 2022 yn wreiddiol ym mis Mawrth 2024, gydag amcangyfrifon y DU yn cael eu symud ymlaen o gyfrifiadau 2021 ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac o Gyfrifiad 2022 ar gyfer yr Alban. Mae'r cyhoeddiad hwn wedi diwygio ffigurau'r DU ar gyfer 2011 i 2022, gydag amcangyfrifon y DU ar gyfer 2023 i ddilyn yn yr hydref, Yr amcangyfrif ar gyfer Cymru a Lloegr ar gyfer canol 2023 yw 60.9 miliwn, cynnydd o oddeutu 610,000 o bobl (1%) ers canol 2022.

## Y boblogaeth yng Nghymru

Ar gyfer canol 2023, amcangyfrifir bod poblogaeth Cymru'n 3,164,000 - cynnydd o 32,000 neu 1.0% ar ffigur canol 2022. Gyda newid naturiol negatif (tua 9,500 yn llai o enedigaethau na marwolaethau) yng Nghymru, mae'r cynnydd rhwng canol 2022 a chanol 2023 wedi'i ysgogi'n bennaf gan gynnydd mewn mudo rhyngwladol net (+23,600). Roedd mudo net negyddol mewnol (o fewn y DU) hefyd wedi ychwanegu tua 17,600 at boblogaeth Cymru dros flwyddyn.

Yng Nghymru, cafwyd cynnydd yn y boblogaeth mewn 21 o'r 22 awdurdod lleol rhwng canol 2022 a chanol 2023, gyda'r cynnydd mwyaf yng Nghaerdydd (+12,400 neu 3.4%). Merthyr Tudful yw'r unig ardal sy'na drodd am gwymp yn ei gyfanswm poblogaeth amcangyfrifedig.

Mae manylion pellach ynghylch y boblogaeth a'r newid diweddar (yn y flwyddyn i 2023) ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol i'w cael yn Atodiad 1.

## Poblogaeth Abertawe

Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2023 ar gyfer Dinas a Sir Abertawe yw **246,700** (wedi'i dalgrynnu), sy'n cynnwys 124,100 o fenywod a 122,600 o ddynion. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli cynnydd o oddeutu 4,700 (+1.9%) ar amcangyfrif canol 2022 (diwygiedig).

Mae elfennau cyffredinol newid mewn poblogaeth – sef genedigaethau, marwolaethau (h.y. newid naturiol) a mudo o ganol 2022 i ganol 2023 – wedi'u nodi yn Nhabl 1 isod. Mae dadansoddiad o'r data ategol a ryddhawyd gyda'r amcangyfrifon yn awgrymu bod y cynnydd cyffredinol a gafwyd ym mhoblogaeth Abertawe dros y 12 mis i fis Mehefin 2023 o ganlyniad i fudo rhyngwladol mewnol (+4,280 o bobl yn fras) a mudo mewnol (o fewn y DU) (+1,190 net), wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan newid naturiol negatif (tua 760 yn fwy o farwolaethau na genedigaethau).

**Tabl 1:** Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2023, elfennau newid mewn poblogaeth: Abertawe, Cymru, Cymru a Lloegr (C a Ll)


| Area: | Poblogaeth canol 2022 | *Elfennau Newid:* Genedigaethau | *Elfennau Newid:* Marwolaethau | Mudo a newidiadau eraill | **Poblogaeth canol 2023** |
|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 242,000 | +2,100 | -2,800 | +5,500 | **246,700** |
| Cymru | 3,132,700 | +27,600 | -37,100 | +41,200 | **3,164,400** |
| C a Ll | 60,245,200 | +598,400 | -598,000 | +609,100 | **60,854,700** |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2022-23 (crwn), SYG. Cyhoeddwyd Gorffennaf 2024.*
*Sylwer: Mae'n bosib na fydd y cyfansymiau'n symio oherwydd talgrynnu.*


## Poblogaeth fesul oedran

Yng nghanol 2023, mae cyfran poblogaeth oedran gweithio Abertawe (h.y. pob person rhwng 16 a 64 oed), sef 62.3%, yn uwch na Chymru (60.9%) Fodd bynnag, mae gan Abertawe gyfran is o blant (0-15 oed), sef 16.8%, na Chymru (17.3%) a Chymru a Lloegr (18.4%).

**Ffigur 1:** Poblogaeth Abertawe fesul grŵp cam bywyd, canol 2023




**Ffigur 2:** Poblogaeth Abertawe, canol 2023, fesul oedran a rhyw




Darperir dadansoddiad manylach o boblogaeth Abertawe fesul oedran a rhyw (fel pyramid poblogaeth) yn Ffigur 2. Mae'r pyramid yn dangos cynnydd sydyn yn y grwpiau 19-21 oed, sy'n adlewyrchu presenoldeb myfyrwyr preswyl yn nwy brifysgol Abertawe.

Mae'r boblogaeth rhwng 22 a 24 oed yna'n cwympo'n sydyn, cyn dychwelyd i batrwm mwy sefydlog yn ystod y rhan fwyaf o flynyddoedd oed gweithio ac yn dirywio'n raddol o ganol 70au pobl (ar ôl y cynnydd mawr mewn genedigaethau wedi'r rhyfel).

Ceir dadansoddiad o boblogaeth canol 2023 fesul oedran mewn carfanau pum mlynedd yn Atodiad 2.

Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon hyn, gellir cymharu cyfansoddiad poblogaeth Abertawe fesul grwpiau oedran dethol (fel yng nghanol 2023) â chyfartaleddau Cymru a Chymru a Lloegr (C a Ll):

- Mae 11,300 o blant 0 i 4 oed yn Abertawe, 4.6% o gyfanswm y boblogaeth - sydd ychydig yn is na'r gyfran gyfatebol ar gyfer Cymru (4.7%) a'r C a Ll (5.3%).
- Mae gan Abertawe hefyd ganran is o blant 5 i 15 oed sef 12.3% (30,200 o blant), na Chymru (12.6%) a'r C a Ll (13.1%).
- Mae 33,700 (13.6%) o boblogaeth Abertawe'n bobl ifanc 16 i 24 oed, cyfradd sy'n uwch na Chymru a'r C a Ll (10.7%), yn rhannol oherwydd myfyrwyr.
- Mae 25.0% o'r boblogaeth (61,700 o bobl) rhwng 25 a 44 oed, sydd rhwng canrannau ar gyfer Cymru (24.6%) a'r C a Ll (26.8%).
- Mae 59,600 o bobl yn Abertawe rhwng 45 a 64 oed (24.2%), cyfran is na Chymru (25.8%) a'r C a Ll (25.3%).
- Mae 20.4% o boblogaeth Abertawe yn 65 oed ac yn hŷn (50,200), hanner ffordd rhwng ffigurau canrannol Cymru (21.6%) a'r C a Ll (18.8%).
- Mae 6,900 o bobl yn Abertawe yn 85 ac yn hŷn, sef 2.8% o gyfanswm Abertawe, ychydig yn uwch na'r gyfran yng Nghymru (2.7%) a'r C a Ll (2.5%).
- Oedran canolrifol y boblogaeth yn Abertawe oedd 40.5 mlwydd oed yng nghanol 2023 sy'n 0.5 o flynyddoedd yn is na chanol 2021 ond yr un peth  chanol 2013. Mae ffigur diweddaraf Abertawe islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (42.8) a'r trydydd oedran canolrifol isaf yng Nghymru (yn uwch na Chaerdydd a Chasnewydd yn unig), ond yr un peth â Chymru a Lloegr (40.5).

## Casgliad

I grynhoi, mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer canol 2023 yn dangos cynnydd blynyddol pellach ym mhoblogaeth Abertawe, sy'n weddol debyg o ran maint i gynnydd 2021 i 2022. Ysgogwyd hyn yn bennaf eto gan fudo rhyngwladol net ac, i raddau llai, fudo mewnol neu o fewn y DU, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan newid naturiol negatif (mwy o farwolaethau na genedigaethau) yn y flwyddyn ddiweddaraf.

Sylwer: Ceir rhagor o wybodaeth genedlaethol am yr amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf ar wefan SYG:
https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationestimatesforenglandandwales/mid2023
https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/methodologies/midyearpopulationestimatesqmi

*Os hoffech dderbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol am yr amcangyfrifon canol blwyddyn, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ynghylch newid mewn poblogaeth a newid demograffeg yn Abertawe, cysylltwch â'r canlynol:*

**Cyngor Abertawe - Gwybodaeth, Ymchwil a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol**
Ebost: ymchwil@abertawe.gov.uk

Uned Cyflwyno Strategol, Gwasanaethau Corfforaethol, y Ganolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN.

## Atodiad 1:
## AMCANGYFRIFON POBLOGAETH AR GYFER AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU

| ***Ardal Awdurdod Lleol*** | *Cyfanswm y boblogaeth: canol 2022* | ***Cyfanswm y boblogaeth: canol 2023*** | ***Newid (%)*** |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | 371,100 | 383,500 | +12,400 (+3.4%) |
| **Abertawe** | **242,000** | **246,700** | **+4,700 (+1.9%)** |
| Rhondda Cynon Taf | 239,200 | 241,200 | +1,900 (+0.8%) |
| Sir Gaerfyrddin | 189,100 | 190,100 | +900 (+0.5%) |
| Caerffili | 176,100 | 176,400 | +300 (+0.2%) |
| Casnewydd | 161,600 | 163,600 | +2,100 (+1.3%) |
| Sir y Fflint | 155,300 | 155,800 | +500 (+0.3%) |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 146,100 | 146,700 | +600 (+0.4%) |
| Castell-nedd Port Talbot | 142,200 | 142,900 | +700 (+0.5%) |
| Wrecsam | 135,400 | 136,100 | +800 (+0.6%) |
| Bro Morgannwg | 133,600 | 134,700 | +1,100 (+0.8%) |
| Powys | 133,900 | 134,400 | +600 (+0.4%) |
| Sir Benfro | 124,400 | 125,000 | +600 (+0.5%) |
| Gwynedd | 118,000 | 119,200 | +1,200 (+1.0%) |
| Conwy | 114,300 | 114,400 | +100 (+0.1%) |
| Sir Ddinbych | 96,600 | 97,200 | +600 (+0.6%) |
| Sir Fynwy | 94,000 | 94,600 | +600 (+0.6%) |
| Torfaen | 92,900 | 93,400 | +600 (+0.6%) |
| Ceredigion | 71,900 | 73,100 | +1,200 (+1.6%) |
| Ynys Môn | 69,100 | 69,300 | +200 (+0.3%) |
| Blaenau Gwent | 67,000 | 67,400 | +400 (+0.6%) |
| Merthyr Tudful | 58,900 | 58,600 | -300 (-0.5%) |
| | | | |
| **Cymru** | 3,132,700 | 3,164,400 | +31,700 (+1.0%) |
| Cymru a Lloegr (C a Ll) | 60,245,200 | 60,854,700 | +609,500 (+1.0%) |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (diwygiedig) 2022 a 2023, SYG.* *© Hawlfraint y Goron 2024.*

## Atodiad 2: POBLOGAETH ABERTAWE (2023) FESUL GRWPIAU OEDRAN PUM MLYNEDD

| **Oedran** | **Gwrywod** | **Menywod** | **Pawb** (% o'r cyfanswm) | **Cymru %** | **C a Ll %** |
|---|---|---|---|---|---|
| 0-4 | 5,800 | 5,500 | 11,300 (4.6%) | 4.7% | 5.3% |
| 5-9 | 6,800 | 6,400 | 13,200 (5.3%) | 5.5% | 5.8% |
| 10-14 | 7,300 | 6,700 | 14,100 (5.7%) | 5.9% | 6.1% |
| 15-19 | 7,800 | 7,000 | 14,800 (6.0%) | 5.8% | 5.9% |
| 20-24 | 12,300 | 9,500 | 21,800 (8.9%) | 6.0% | 6.0% |
| 25-29 | 7,600 | 7,400 | 15,000 (6.1%) | 6.0% | 6.5% |
| 30-34 | 7,900 | 7,900 | 15,800 (6.4%) | 6.4% | 6.9% |
| 35-39 | 7,700 | 8,100 | 15,800 (6.4%) | 6.3% | 6.8% |
| 40-44 | 7,300 | 7,800 | 15,100 (6.1%) | 5.9% | 6.5% |
| 45-49 | 6,700 | 6,700 | 13,400 (5.4%) | 5.5% | 5.9% |
| 50-54 | 7,500 | 7,800 | 15,300 (6.2%) | 6.6% | 6.6% |
| 55-59 | 7,900 | 8,200 | 16,100 (6.5%) | 7.1% | 6.7% |
| 60-64 | 7,200 | 7,600 | 14,900 (6.0%) | 6.7% | 6.1% |
| 65-69 | 6,200 | 7,100 | 13,300 (5.4%) | 5.8% | 5.0% |
| 70-74 | 5,700 | 6,200 | 11,900 (4.8%) | 5.3% | 4.5% |
| 75-79 | 5,100 | 6,100 | 11,100 (4.5%) | 4.8% | 4.2% |
| 80-84 | 3,100 | 3,900 | 7,000 (2.9%) | 3.0% | 2.6% |
| 85-89 | 1,700 | 2,700 | 4,400 (1.8%) | 1.8% | 1.6% |
| 90+ | 800 | 1,600 | 2,400 (1.0%) | 1.0% | 0.9% |
| **Total** | **122,600** | **124,100** | **246,700** (100%) | 100% | 100% |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2023, SYG.* *© Hawlfraint y Goron 2024.*